# Y Pwyllgor Archwilio

## Cofnodion (AC(2)-02-05)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Iau 10 Chwefror 2005

### Amser y cyfarfod: 1.30pm – 3.30pm

### Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Irene James | Islwyn |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru |
| Denise Idris-Jones | Conwy |

#### Eraill yn Bresennol

| **Enw** | **Yn cynrychioli (os yw'n berthnasol)** | **Eitem(au) agenda** |
|---|---|---|
| Ann Lloyd | Pennaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru | 2 |

| | | |
|---|---|---|
| John Hill - Tout | Cyfarwyddwr, Cyfarwyddiaeth Perfformiad a Gweithgarwch, Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 2 |

**Swyddogion yn Bresennol**

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gillian Body | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Rob Powell | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Ian Gibson | Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad |

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Kathryn Jenkins | Clerc y Pwyllgor |
| Virginia Hawkins | Dirprwy Glerc y Pwyllgor (dros-dro) |

**Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Eilyddion a Datgan Buddiannau**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod ychwanegol.

1.2 Yr oedd ymddiheuriadau wedi dod i law oddi wrth Catherine Thomas a Carl Sargeant. Nid oedd unrhyw eilyddion.

1.3 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**Eitem 2: Amseroedd aros y GIG yng Nghymru**
**Papur: AC(2)-01-05(p.1)**

2.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ann Lloyd, Pennaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru a John Hill - Tout, Cyfarwyddwr, Cyfarwyddiaeth Perfformiad a Gweithgarwch, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

2.2 Ceir cofnod gair-am-air o'r dystiolaeth yn Atodiad 1 i'r cofnodion hyn.

Camau i'w cymryd

2.3 Cytunodd Ann Lloyd i ddarparu:

- y data diweddaraf ar nifer y derbyniadau amhriodol (cleifion lefel 4) i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys;
- manylion y fformwla sy'n cael ei datblygu ar gyfer lefel y taliadau ar gyfer defnyddio cartrefi gofal preifat;
- ffigurau ar wahân yn dangos y niferoedd sy'n cymryd yr opsiynau ail gynnig yn y GIG yng Nghymru, y GIG yn Lloegr a'r sector preifat yng Nghymru;
- manylion costau rhedeg y Tîm Comisiynu sy'n gweinyddu cynllun yr ail gynnig;
- papur ar y risgiau i'r GIG yng Nghymru yn deillio o gleifion o Gymru yn dal heintiau MRSA wrth dderbyn triniaeth gan y GIG yn Lloegr;
- gwybodaeth ar y defnydd o ystadegau amseroedd aros gan fyrddau iechyd lleol.

2.4 Cafwyd cais gan y Cadeirydd yn gofyn am baratoi'r nodiadau o'r cyfarfod hwn a chyfarfod blaenorol y Pwyllgor cyn y cyfarfod nesaf, i'w gynnal ar 3 Mawrth yng Nghanolfan Dylan Thomas, Abertawe.

## Eitem 3: Cofnodion y cyfarfod diwethaf

3.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2005.